

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Dirybudd)

Clinig Enwaedu Transcend,
Caerdydd

Dyddiad arolygu: 5 Tachwedd
2019

Dyddiad cyhoeddi: 6 Chwefror
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r adolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
4.	Beth nesaf?	18
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	19
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B – Cynllun gwella	21

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Glinig Enwaedu Transcend yn 98 Heol Wentloog, Tredelerch, Caerdydd, CF3 3XE ar 5 Tachwedd 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC ac un adolygwr cymheiriaid clinigol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaeth enwaedu defodol (anfddygol), ac mae'n cael adborth gwych gan ei ddefnyddwyr sydd â meddwl mawr ohono.

Defnyddir technegau llawdriniaeth safonedig gydag analgesia ac anesthetig lleol priodol. Ceir cydsyniad y ddau riant – os nad yw'r ddau riant yn bresennol, caiff hawlildiad ei lofnodi gan y rhiant sy'n bresennol. Cynghorwyd y dylid cofnodi'r rheswm dros absenoldeb rhiant.

Mae'r clinig yn darparu gwasanaeth sy'n ateb galw rhieni y mae'n well ganddynt enwaedu eu plant gwrywaidd am resymau cymdeithasol, diwylliannol neu grefyddol. Mae'r gwasanaeth yn cyfathrebu'n dda â rhieni, a chaiff fideo da ei ddangos i rieni, sy'n egluro'r driniaeth gyfan.

Dylai cofnodion a dogfennaeth y cleifion y mae'r clinig yn eu cadw fod yn fwy cynhwysfawr a chliir. Heb siarad â'r rheolwr, roedd yn anodd gweld pa gamau a oedd wedi'u cymryd. Roedd y clinig yn amlwg yn brysur iawn a byddai'n fuddiol penodi gweinyddwr er mwyn gwella'r gwaith o gadw cofnodion.

Rhaid penderfynu a oes angen atal cleifion yn gorfforol ac ystyried yr effeithiau andwyol posibl mewn perthynas â hyn er mwyn iddynt gael eu cynnwys mewn disgrifiad mwy cytbwys o fanteision ac anfanteision y driniaeth ddewisol hon.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Cafwyd adborth cadarnhaol gan y cleifion am y gwasanaethau a ddarperir
- Roedd y clinig mewn cyflwr da, yn lân ac yn daclus
- Mae'r cyfraddau cymhlethdodau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn ac maent yn adlewyrchu'r hyn sy'n ddisgwyliedig.

- Mae'r clinig yn cyfathrebu'n dda â rhieni.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Nodi'r rheswm dros absenoldeb rhiant
- Cynnwys rhagor o fanylion yng nghofnodion y cleifion
- Cymorth gweinyddol i'r rheolwr cofrestredig
- Disgrifio'n glir sut i atal cleifion yn gorfforol yn ystod y driniaeth, a'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â hyn.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Clinig Enwaedu Transcend wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaethau enwaedu dynion am resymau crefyddol ac ar gyfer pobl yr aseswyd eu bod yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol yn 98 Heol Wentloog, Tredelerch, Caerdydd, CF3 3XE.

Dim ond gwasanaethau gofal dydd y mae'r gwasanaeth yn eu darparu.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 12 Tachwedd 2014.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys y rheolwr cofrestredig, sy'n darparu'r gwasanaeth, meddyg arall a derbynnydd.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd yr ystafelloedd ymgynghori mewn cyflwr da ac yn cynnig yr urddas a'r chyfrinachedd angenrheidiol i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Serch hynny, nodwyd y gellid clywed cleifion yn crio o'r ystafell aros, a allai beri pryder i'r cleifion.

Mae'r gwasanaeth yn cael adborth gwych gan ei gleifion, sydd â meddwl mawr ohono.

Urddas a pharch

Roedd gan y gwasanaeth bolisi preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd gyda'r nod o sicrhau bod holl ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr yn cael eu trin yn unol ag egwyddorion urddas a pharch.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw ar wahân i gleifion yn unol â'r rheoliadau. Roedd y rhain ar gael yn ardal y dderbynfa ac yn nodi gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigwyd, sut y gellid cael gafael arnynt a'r trefniadau ar gyfer cydsynio i driniaeth. Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael hefyd ynghylch cael cydsyniad dilys gan gleifion.

Trafodwyd y gofynion yn ymwneud â chydysyniad ar sail gwybodaeth gyda'r rheolwr cofrestredig. Dywedodd y rheolwr cofrestredig y byddai cydsyniad y ddau riant yn cael ei sicrhau cyn i'r driniaeth ddigwydd, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Os nad yw'r ddau riant yn bresennol, caiff hawlildiad ei lofnodi gan y rhiant sy'n bresennol. Nid oedd y rheswm dros absenoldeb un riant yn cael ei gofnodi ar gofnod y claf.

Er bod y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag enwaedu defodol yn cael eu hegluro'n dda, gan gyfeirio at y manteision posibl o ran hylendid, ni chyfeirir at anfanteision posibl y driniaeth. Dylid cynnwys hyn yn y broses gydsynio a chynnig cyfnod o fyfyrto i rhieni.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid nodi'r rheswm dros absenoldeb rhiant.

Mae'n rhaid i'r broses gydsynio gynnwys anfanteision posibl y driniaeth, ac mae'n rhaid cynnig cyfnod o fyfyrto i rieni cyn iddynt roi eu cydsyniad terfynol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod y driniaeth yn cael ei hegluro i'r rhieni a bod fideo pwrpasol yn cael ei ddangos i egluro'r driniaeth yn llawn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael i rieni nad oeddent yn siarad Saesneg. O ystyried demograffig y cleifion, awgrymwyd y dylai taflenni fod ar gael i'r rhieni hyn.

Rhoddwyd llythyr i rieni'r claf fel y gallent ei roi i'w meddyg teulu; cynghorwyd rhieni i roi gwybod i'w meddyg teulu am y driniaeth cyn gynted â phosibl.

Roedd y rheolwr cofrestredig ar gael ar ei ffôn symudol pe bai unrhyw ymholiadau neu gymhlethdodau brys ar ôl y driniaeth. Roedd y tîm o'r farn y dylid sicrhau bod ffordd arall o gysylltu â'r rheolwr cofrestredig rhag ofn na fyddai modd cael cyngor brys yn y ffordd hon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig ddarparu canllawiau ychwanegol ar y camau y dylai rhieni eu cymryd pe bai unrhyw ymholiadau neu gymhlethdodau brys ar ôl y driniaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelodd y tîm y derbynnydd yn cadarnhau pwy oedd y rhieni wrth iddynt gyrraedd y clinig.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn cynnal y driniaeth, gydag un ymarferydd arall yn bresennol yn ystod y driniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd polisiau ysgrifenedig ar waith yr oedd angen iddynt gael eu hadolygu ym mis Rhagfyr 2019 mewn perthynas â phreifatrwydd, urddas a chyfrinachedd, fel y disgrifir uchod. At hynny, roedd gweithdrefn gwynion ysgrifenedig ar gael. Roedd hon yn nodi'r amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion yn unol â'r rheoliadau; roedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys hefyd.

Roedd y cyfleusterau ar un lefel gan alluogi mynediad hawdd i'r dderbynfa, yr ystafell aros, yr ystafelloedd ymgynghori a'r toiled i bobl anabl.

Roedd yn hawdd dod o hyd i'r lleoliad ac roedd arwyddion clir y tu allan i'r adeilad. Roedd digon o arwyddion yn nodi ble roedd yr allanfeydd tân.

Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth

Roedd y gwasanaeth yn defnyddio holiaduron cleifion i gasglu adborth gan y cleifion a'u gofalwyr. Roedd y sampl o holiaduron wedi'u cwblhau a welsom yn cynnwys sylwadau cadarnhaol am y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth. Roedd y gwasanaeth yn cynnal adolygiadau blynyddol o'r adborth a gafwyd. Fodd bynnag, nid oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys crynodeb o'r adborth a gafwyd, fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid cynnwys crynodeb o adborth y cleifion yn y canllaw i gleifion

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus, ac roedd polisi rheoli heintiau cyfredol ar waith. Fodd bynnag, nodwyd gennym y byddai'n anodd glanhau agweddau penodol ar y cyfarpar a ddefnyddir i atal cleifion yn gorfforol ac rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu hyn.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg ar waith i sicrhau y gellid darparu gofal diogel ac effeithiol.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Cynhaliwyd asesiad o'r cyfleusterau gan yr adolygydd clinigol. Yr adolygydd clinigol oedd yr Arweinydd Cenedlaethol ar Wroleg ar gyfer "Dull Adolygu Drwy Wahoddiad"¹ Coleg Brenhinol y Llawfeddygon.

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i nodi peryglon a lleihau'r risg o niwed. Gwelsom fod asesiadau risg ysgrifenedig wedi cael eu cwblhau a bod camau gweithredu wedi cael eu nodi er mwyn rheoli a lliniaru risgiau. Roedd y rhain yn cynnwys asesiadau risg amgylcheddol ac asesiadau risg gweithdrefnol.

Gwelsom fod cyfarpar diogelwch tân wedi'i osod o amgylch y gwasanaeth a bod arwyddion clir i ddangos ble roedd yr allanfeydd tân. Roedd hyn yn golygu bod cyfarpar a gwybodaeth ar gael i'r staff a'r cleifion ac y gallent adael yr adeilad yn ddiogel pe bai tân.

¹ <https://www.rcseng.ac.uk/standards-and-research/support-for-surgeons-and-services/irm/>

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Wrth fynd o gwmpas y gwasanaeth, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus iawn. Roedd gan y gwasanaeth bolisi rheoli heintiau cyfredol a oedd yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r trefniadau i leihau'r risg o groes-heintio yn y gwasanaeth.

Nid oedd y cyfarpar a welsom i atal cleifion yn gorfforol yn ymddangos yn addas i'w lanhau na'i ddiheintio'n effeithiol rhwng cleifion. Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y gellir glanhau a diheintio'r cyfarpar i atal cleifion yn gorfforol mewn ffordd ddiogel ar ôl pob triniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid adolygu'r cyfarpar i atal cleifion yn gorfforol er mwyn sicrhau y gellir ei lanhau a'i ddiheintio ar ôl pob triniaeth.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd meddyginiaethau'n cael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo mewn ystafell fach yn ardal y dderbynfa – roedd yr allwedd yn cael ei chadw gan y rheolwr cofrestredig. Roedd ardal y dderbynfa'n hygyrch i unrhyw un yn y clinig, felly rydym yn argymhell y dylid cadw drws y dderbynfa ar gau ac wedi'i gloi pan na fydd aelodau o'r staff yn ardal y dderbynfa.

Roedd paracetamol ar gael i'r plant, a gallai'r rhieni ei brynu am dâl bach.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cadw drws y dderbynfa ar gau pan na fydd aelodau o'r staff yn ardal y dderbynfa.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd y gwasanaeth wedi llunio polisïau ysgrifenedig ar ddiogelu oedolion agored i niwed, a diogelu plant a phobl ifanc. Roedd y rhain yn cynnwys camau gweithredu yr oedd angen eu cymryd mewn perthynas â diogelu ynghyd â manylion am y camau gweithredu y dylid eu cymryd pe amheuid achos o gam-drin. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod wedi cael Hyfforddiant Diogelu Lefel 3. Dywedwyd wrth y rheolwr bod yn rhaid i bob aelod o'r staff sy'n ymwneud â gofal clinigol plant fod wedi cwblhau Hyfforddiant Diogelu Lefel 3.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Defnyddir technegau llawdriniaeth safonedig gydag analgesia ac anesthetig lleol priodol. Caiff rhieni'r plentyn eu hannog i fod yn bresennol drwy gydol y driniaeth.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod cleifion yn aml yn cael eu hatal yn gorfforol yn ystod y driniaeth drwy glymu'r coesau. Er i'r tîm arolygu gydnabod nad oes dull arall yn bosibl, heblaw am gynnal y driniaeth o dan anesthetig cyffredinol, dylai'r rheolwr cofrestredig, serch hynny, ystyried dulliau amgen o dynnu sylw. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig hefyd sicrhau y caiff yr angen posibl i atal claf yn gorfforol ei drafod â'r rhieni fel rhan o'r weithdrefn gydsynio. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, mae hyn yn sicrhau bod cynrychiolaeth fwy cytbwys o ran manteision ac anfanteision y driniaeth yn cael eu cyfleu i'r rhieni cyn iddynt gydsynio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob dewis arall yn lle clymu'r coesau ar gael i'r cleifion.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y posibilrwydd y bydd angen atal claf yn gorfforol ei drafod â'r rhieni fel rhan o'r broses gydsynio.

Gan ystyried y sylwadau uchod, mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig lunio polisi ysgrifenedig ar y mesurau atal yn gorfforol a ganiateir, ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu defnyddio.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom nad oedd y ffordd yr oedd y clinig yn cadw cofnodion yn ddigon clir. Roedd y cofnodion yn annigonol ac nid oeddent yn cynnwys y manylion gofynnol i gadarnhau'r driniaeth a roddwyd. Nid oedd unrhyw drywydd archwilio cofnodion na dyddiadau, a oedd yn golygu nad oedd y tîm arolygu yn gallu nodi pryd roedd rhywbeth wedi cael ei gyflawni. Nid yw'r rhesymau dros gynnal y driniaeth na chanfyddiadau'r driniaeth yn cael eu cofnodi.

Nid yw'r broses o roi poenleddfwr, dosau na'r amser y cawsant eu rhoi i'r claf yn cael eu cofnodi'n effeithiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen cymryd nodiadau cynhwysfawr o'r driniaeth, gan gynnwys y rhesymau dros gynnal y driniaeth, y rhesymau dros gael llofnod un rhiant yn unig (os yw hyn yn wir), dos poenleddfwyr a'r amser y cawsant eu rhoi i'r claf.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth a dangosodd ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth diogel ac o ansawdd uchel i'r cleifion.

Er i'r rheolwr gadarnhau bod cyfarfodydd llywodraethu clinigol yn cael eu cynnal, nid oedd unrhyw nodiadau o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cofnodi, gan gynnwys unrhyw bwyntiau dysgu neu'r camau a gymerwyd.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn y clinig, ar adeg ein harolygiad, yn unol ag amodau cofrestru AGIC. Roedd y tystysgrifau cofrestru'n cael eu harddangos yn glir, fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion cyfredol ar gael. Fel y nodir uchod, roedd y rhain yn nodi gwybodaeth am y gwasanaeth, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd amrywiaeth o bolisiâu ar gael o ran trefniadau rheoli'r gwasanaeth, a nodwyd bod angen i nifer o bolisiâu gael eu hadolygu.

Nid oedd y pynciau na'r achosion a drafodwyd yn y sesiynau llywodraethu clinigol misol yn cael eu cofnodi, felly nid oeddent ar gael i'r tîm arolygu fwrw golwg drostynt. Dylai'r rhain gael eu cofnodi, dylid nodi unrhyw bwyntiau dysgu a'u rhoi ar waith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cadw cofnodion o adolygiadau ac archwiliadau llywodraethu clinigol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Yn ystod sgwrs â'r rheolwr cofrestredig, dywedodd na fu unrhyw bryderon na digwyddiadau yn y gwasanaeth. Gwelsom sampl o ffurflenni adborth gan gleifion ac roeddent i gyd yn gadarnhaol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Ar adeg yr arolygiad, roedd un aelod o staff y dderbynfa yn cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan y gwasanaeth. Roedd gan yr aelod o'r staff wiriad DBS dilys ac roedd wedi cwblhau'r holl hyfforddiant perthnasol ar gyfer ei rôl.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Ar ôl edrych ar y cofnodion cyflogaeth, roedd pob proses berthnasol wedi cael ei chwblhau wrth recriwtio'r derbynnydd. Gwelsom fod y ffurflen gais, geirdaon a chofnod o'r cyfweiliad wedi cael eu cadw i ddangos bod y prosesau recriwtio priodol wedi cael eu cwblhau.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinig Enwaedu Transcend

Dyddiad arolygu: 5 Tachwedd 2019

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn. Nid yw'n ofynnol i'r gwasanaeth hwn lunio cynllun gwella.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Cydsynio <ul style="list-style-type: none">Dylid nodi'r rheswm dros absenoldeb rhiant.Mae'n rhaid i'r broses gydsynio gynnwys anafanteision posibl y driniaeth, ac mae'n rhaid cynnig cyfnod o fyfyrto i rieni cyn iddynt roi eu cydsyniad terfynol.	Rheoliad 39 (1) (d) Rheoliad 40 (2)			
Gwybodaeth i Gleifion <ul style="list-style-type: none">Mae angen i'r rheolwr cofrestredig ddarparu canllawiau ychwanegol ar y camau y dylai rhieni eu cymryd pe bai unrhyw ymholiadau neu gymhlethdodau brys ar ôl y driniaeth	Rheoliad 9 (1) (g)			
Canllaw i gleifion				

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid cynnwys crynodeb o adborth y cleifion yn y canllaw i gleifion 	Rheoliad 7 (1) (e)			
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Atal a Rheoli Heintiau <ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid adolygu'r cyfarpar i atal cleifion yn gorfforol er mwyn sicrhau y gellir ei lanhau a'i ddiheintio ar ôl pob triniaeth. 	Rheoliad 15 (8) (c)			
Rheoli Meddyginiaethau <ul style="list-style-type: none"> Dylid cadw drws y dderbynfa ar gau ac wedi'i gloi pan na fydd aelodau o'r staff yn ardal y dderbynfa. 	Rheoliad 15 (5) (a)			
Defnydd o fesurau atal yn gorfforol <ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob dewis arall yn lle clymu'r coesau ar gael i'r cleifion. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y posibilrwydd y bydd angen atal claf yn 	Rheoliad 16 (2) a Rheoliad 9 (2) (b)			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>gorfforol ei drafod â'r rhieni fel rhan o'r broses gydsynio.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gan ystyried y sylwadau uchod, mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig lunio polisi ysgrifenedig ar y mesurau atal yn gorfforol a ganiateir, ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu defnyddio. 				
<p>Cadw Cofnodion</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae angen cymryd nodiadau cynhwysfawr o'r driniaeth, gan gynnwys y rhesymau dros gynnal y driniaeth, y rhesymau dros gael llofnod un rhiant yn unig (os yw hyn yn wir), dos poenleddfwyr a'r amser y cawsant eu rhoi i'r claf. 	Rheoliad 23 (1) (a)			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Ansawdd a Gwella Gwasanaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylid cadw cofnodion o adolygiadau ac archwiliadau llywodraethu clinigol 	Rheoliad 19 (1) (a)			